# MAE'N RHY OLAU!

Mae'r bysus yn eu hunfan,
Mae drws y Post ar gau
Ac yfwrs clên y Leion
Yn chwyrnu yn eu gwlâu;
Ond does dim sôn am dylluan frech
Yn hela'n slei o lwyn i lech.

Mae'r ysgol fach yn dawel
A Siop y Crydd dan glo,
Y Gweithdy a'r Cwt Tatws
A noswyliodd yn ei tro;
Ond rhyfedd nad oes blewyn coch
Yn sleifio draw o Abersoch.

Distawrwydd sydd ym Mhenllech,
'Sdim smic yn dod o'r coed,
Mae fel y bedd yn 'Dweiliog,
Dim sibrwd na sŵn troed;
Ond dal, mae'r ystlum, i swatio'n dynn -
Rhy olau ydyw erbyn hyn.

Bu unwaith awyr dywyll,
Bywyd gwyllt yn llenwi'r nos,
Yn syrcas o brysurdeb
Yng nghwmni seren dlos;
Ond o ben Garn i Borthdinllaen
Dan ni'n mynnu cadw'r golau 'mlaen!

*Ysgol Tudweiliog*
*27 Chwefror 2026*